15 Hydref 2025

Annwyl

**ATISN 25163**

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 18 Medi 2025. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

1. Y cyfanswm ariannu blynyddol a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru (trwy Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol neu gyrff eraill) ar gyfer darpariaeth Cymraeg i Oedolion dros y pum blwyddyn ariannol ddiwethaf (e.e. 2020–21, 2021–22, 2022–23, 2023–24, 2024–25), mewn GBP.

2. Dadansoddiad o'r cyllid yn ôl math, gan gynnwys:
   - Wlpan (cyrsiau dwys i ddechreuwyr)
   - Cyrsiau lefel mynediad
   - Sylfaen, canolradd, uwch a rhugldder
   - Cefnogaeth ar gyfer cyrsiau trochi neu breswyl (e.e. Nant Gwrtheyrn)
   - Darpariaeth ar-lein ac yn y gweithle (e.e. Cymraeg Gwaith)

3. Manylion y ffioedd cwrs nodweddiadol a godir ar ddysgwyr ar gyfer pob categori (e.e. Wlpan, mynediad, trochi), gan gynnwys unrhyw wahaniaethau yn ôl lleoliad, math o ddysgwr (e.e. cyfraddau consesiwn i rai 16–25 oed, gweithlu addysg) neu fformat (preswyl yn erbyn rhithwir).

4. Unrhyw ddata sydd ar gael ar nifer y dysgwyr sydd wedi cofrestru ar bob math o gwrs bob blwyddyn.

5. Copïau o adroddiadau blynyddol neu grynodebau mewnol perthnasol sy'n manylu ar yr agweddau hyn.

**Ein hymateb**

<u>1. Cyfanswm y cyllid blynyddol a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru</u>

Sefydlwyd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn 2016 ac ers hynny mae cyllid ar gyfer Dysgu Cymraeg (Cymraeg i Oedolion) wedi ei gyfeirio trwy'r Ganolfan. Mae'r cyfanswm a dalwyd i'r Ganolfan ar gyfer darpariaeth Dysgu Cymraeg yn ystod y cyfnod 2020-25 fel a ganlyn:

| Blwyddyn Ariannol | Taliad |
|---|---|
| 2020-21 | £11,909,048 |
| 2021-22 | £13,267,957 |
| 2022-23 | £13,478,625 |
| 2023-24 | £15,149,479 |
| 2024-25 | £15,444,516 |

2. Dadansoddiad o'r cyllid yn ôl math

Mae gwahanol elfennau o gyllideb y Ganolfan Dysgu yn cefnogi'r ddarpariaeth Dysgu Cymraeg. Nid ydym yn dyrannu cyllid i'r Ganolfan Dysgu ar sail lefelau dysgu nac ychwaith y dull dysgu. O ganlyniad, nid oes gwybodaeth ar gadw gennym am y dadansoddiadau cyllid ar gyfer yr elfennau canlynol:

- Wlpan (cyrsiau dwys i ddechreuwyr)
- Cyrsiau lefel mynediad
- Sylfaen, canolradd, uwch a rhuglder
- Cefnogaeth ar gyfer cyrsiau trochi neu breswyl (e.e. Nant Gwrtheyrn)
- Darpariaeth ar-lein

Mae'r taliadau ar gyfer Cymraeg Gwaith fel a ganlyn:

| Blwyddyn Ariannol | Taliad |
|---|---|
| 2020-21 | £1,505,000 |
| 2021-22 | £2,500,000 |
| 2022-23 | £2,500,000 |
| 2023-24 | £2,565,000 |
| 2024-25 | £2,532,500 |

Noder bod y taliadau hyn yn rhan o'r cyfanswm a dalwyd o dan 1. uchod.

3. Manylion y ffioedd cwrs nodweddiadol a godir ar ddysgwyr

Y Ganolfan Dysgu sy'n gyfrifol am bennu ffioedd ar gyfer cyrsiau Dysgu Cymraeg. Mae copi Bolisi Ffioedd a Gostyngiadau y Ganolfan Dysgu ar gael yn gyhoeddus trwy: 2025-26-polisi-ffioedd-a-gostyngiadau.pdf

4. Data ar nifer y dysgwyr

Y Ganolfan Dysgu sy'n gyfrifol am gyhoeddi ystadegau swyddogol ar Ddysgu Cymraeg. Mae'r ystadegau ar gael yn gyhoeddus trwy: Data | Dysgu Cymraeg

5. Copïau o adroddiadau blynyddol neu grynodebau mewnol perthnasol

Mae copïau o adroddiadau blynyddol y Ganolfan Dysgu ar gael yn gyhoeddus trwy: Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | Dysgu Cymraeg

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir